**Eitem: 21**

**Teitl:** Adroddiad rhaglen waith y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Adrodd arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn er gwybodaeth. |
| **Risg / Risk** | Os nad yw'r Bwrdd yn cytuno ar raglen waith ac yn ei chynnal, mae risg na fydd Bwrdd Llais yn parhau i ddatblygu a sicrhau bod ei weithrediad a/neu ei broses gwneud penderfyniadau yn cyd-fynd ag arfer llywodraethu da a gofynion statudol gofynnol, ei Reolau Sefydlog ei hun a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol Llais. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'n blaenoriaeth 5 -tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad a chyflawniad llwyddiannus ar gyfer pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant Llais. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>Allanol: enw da ein sefydliad ☒ |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae gan y Bwrdd raglen waith dreigl ar waith ers ei sefydlu, sydd wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd.<br><br>Mae'r rhaglen waith hon hefyd yn ymgorffori meysydd datblygu a chamau gweithredu fel allbynnau y cytunwyd arnynt o adolygiadau effeithiolrwydd blaenorol y Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Richard Bevan, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 9 Mawrth 2026 |

**Argymhellion/ Recommendations**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn er gwybodaeth. Bydd y Bwrdd yn nodi bod dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer 2026/2027 wedi'u nodi yn y rhaglen waith atodedig, ond nad yw manylion y rhaglenni wedi'u cynnwys.

Nid yw'r elfennau hyn wedi'u cwblhau eto, gan fod cynigion yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026/2027 sy'n effeithio ar gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol trwy gyfranogiad aelodau'r bwrdd mewn gweithgareddau ymgysylltu cymunedol ledled Cymru, yn ogystal â gweithgareddau eraill.

O ganlyniad, cynigir bod y Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol 4 gwaith y flwyddyn yn unol â gofyniad ein Rheolau Sefydlog yn hytrach na'r 6 gwaith y flwyddyn bresennol, a roddwyd ar waith yn ystod cyfnod datblygu'r sefydliad.

Unwaith y bydd y ffordd ymlaen wedi'i chadarnhau, bydd rhaglen cyfarfodydd y dyfodol a'u rhaglenni gwaith priodol a'r agenda bosibl yn cael eu datblygu a cheisir cymeradwyaeth.